Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Twts Tywi**

**Cwm Cudyll Fach**
**Llandeilo**
**SA19 7BR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Meithrinfa Twts Tywi

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | TWTS TYWI LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 36 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae’r plant yn hapus iawn, wedi setlo ac yn gwneud cynnydd da yn y feithrinfa. Maent yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Cânt ddewisiadau a chyfleoedd da i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Anogir annibyniaeth y plant yn gyson drwy gydol eu hamser yn y feithrinfa.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn mwynhau eu rolau. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol. Mae'r staff yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar tuag at ei gilydd a'r plant. Maent yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant drwy amrywiaeth eang o weithgareddau a gynlluniwyd a gaiff eu harwain gan ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant. Mae'r staff yn cadw cofnodion da o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac yn drefnus. Mae digon o le yn yr ardaloedd chwarae dan do, ac mae ardal awyr agored fawr ar gael i'r plant sy'n cynnwys digon o adnoddau. Mae'r plant yn rhydd i ddewis yr hyn yr hoffent chwarae ag ef. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mae gwiriadau diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfer yr adeilad.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn gryf iawn. Mae'r tîm rheoli yn hynod effeithiol ac yn awyddus iawn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae cysylltiadau cryf â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

## Llesiant — Da

Mae llais y plant yn gryf yn y lleoliad a chânt gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n effeithio arnynt. Gallant ddewis ble i chwarae a beth yr hoffent chwarae ag ef, a chânt ddewis yn rheolaidd a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgaredd ai peidio. Maent yn siarad yn hyderus ac mae'r rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar eto yn defnyddio arwyddion fel pwyntio i gyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau yn llwyddiannus. Er enghraifft, pwyntiodd blentyn at weithgaredd yr oedd am gymryd rhan ynddo a gwnaeth y staff ei helpu i ymuno â'r gweithgaredd hwnnw.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Mae ganddynt gydberthnasau agos â'r staff sy'n garedig, yn addfwyn ac yn gynnes. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn deffro ar ôl bod yn cysgu ac yn ymestyn ei freichiau tuag at aelod o'r staff i gael maldod cyn ymuno â'r plant eraill i chwarae. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn y lleoliad ac yn mwynhau'r drefn honno. Mae hyn yn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, gwelsom y plant yn gwisgo eu cotiau yn llawn cyffro er mwyn mynd allan i chwarae.

Mae'r plant yn ymddwyn ac yn rhyngweithio'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae'n hapus ar eu pen eu hunain neu gyda'u ffrindiau wrth iddynt ddysgu i rannu a chydweithio. Mae'r plant yn dechrau deall anghenion eraill ac yn ystyried teimladau eu ffrindiau. Er enghraifft, gwelsom blentyn yn helpu plentyn arall a oedd wedi disgyn ar y llawr.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael budd o amrywiaeth dda o adnoddau chwarae a dysgu sy'n briodol i'w hoedran ym mhob ystafell ac yn yr ardal awyr agored. Maent yn dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau difyr. Er enghraifft, mae'r plant yn chwarae yn y gegin fwd, yn gwneud marciau yn y blawd, ac yn defnyddio creonau i dynnu llinellau o amgylch siapiau anifeiliaid. Caiff y plant eu hannog i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn chwarae am gyfnodau o amser sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain am gyfnodau o amser sy'n eu galluogi i atgyfnerthu sgiliau a gwneud penderfyniadau. Mae'r plant yn dysgu i wneud pethau drostynt eu hunain, fel arllwys diodydd eu hunain a gweini eu hunain yn ystod amser bwyd. Mae'r plant hŷn yn gallu golchi a sychu eu dwylo'n hyderus, ac mae'r plant iau yn gwneud hynny gydag arweiniad.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel, ac maent yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith yn effeithiol. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau diogelu ac o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae'r staff yn cwblhau cofnodion perthnasol mewn perthynas â damweiniau a digwyddiadau yn gywir ar-lein. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Mae'r staff yn cadw cofrestrau presenoldeb ar-lein ar eu cyfer nhw ac ar gyfer y plant, ac yn cadw cofnodion o unrhyw un sy'n ymweld â'r lleoliad. Mae'r wybodaeth am alergeddau unigol yn gyfredol ac yn cael ei harddangos yn glir ym mhob ystafell. Caiff hefyd ei rhannu â'r staff a'i diweddaru ar ffurf electronig. Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae ganddynt weithdrefnau effeithiol ar waith i hybu ffordd iach o fyw. Maent yn dilyn gweithdrefnau rheoli heintiau drwy olchi eu dwylo ar ôl newid cewynnau a chyn paratoi bwyd. Mae'r byrbrydau a'r prydau sy'n cael eu darparu yn faethlon a gall y plant gael gafael ar ddŵr i'w yfed yn rheolaidd drwy gydol y dydd.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn canmol y plant mewn ffordd gadarnhaol am ddal ati ac am ymddygiad da. Mae'r staff yn ymateb yn gyson. Maent yn gwneud pob ymdrech i wrando'n astud ac i gyfathrebu â'r plant. Maent yn ymuno â'r plant i chwarae ac yn siarad â nhw'n rheolaidd er mwyn ehangu eu dysgu a chynnig profiadau cymdeithasol iddynt. Yn ystod amser cinio, gwelsom y staff yn sgwrsio â'r plant hŷn am eu teuluoedd. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd, caredigrwydd ac amynedd. Mae'r staff yn cymryd amser i sicrhau eu bod yn rhyngweithio mewn modd ystyrlon sydd o fudd i'r plant sy'n cael gofal ganddynt. Maent yn angerddol yn eu rolau ac yn falch bod yn rhan o'r tîm.

Mae'r staff yn cefnogi'r plant i ddysgu a datblygu yn effeithiol. Maent yn arsylwi ar y plant yn chwarae ac yn dysgu yn rheolaidd er mwyn olrhain eu cynnydd. Mae hyn yn eu helpu i gynllunio gweithgareddau er mwyn galluogi camau dysgu a datblygu nesaf y plant. Gwelsom fod barn a diddordebau'r plant yn cael eu cofnodi a'u hystyried wrth gynllunio gweithgareddau a datblygiadau newydd. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn wybodus am eu datblygiad. Mae hyn yn eu galluogi i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol. Gwneir defnydd cadarn o'r Gymraeg ym mhob rhan o'r feithrinfa.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Dim ond mynediad awdurdodedig y mae'r staff yn ei ganiatáu i'r lleoliad, ac maent yn sicrhau eu bod yn cadw cofnod o bob ymwelydd. Mae'r giât i'r ardd bob amser ar gau pan fydd y plant y tu allan, ac mae'r staff yn sicrhau nad oes unrhyw un yn cael mynediad heb awdurdod. Mae'r gwiriadau diogelwch rheolaidd ar gyfer yr adeilad, a'r tystysgrifau, yn gyfredol. Mae asesiadau risg defnyddiol ar gyfer pob rhan o'r lleoliad ac ar gyfer pob gweithgaredd ar waith ac yn cael eu dilyn gan y staff. Maent yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd er mwyn nodi unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant, a dileu'r risgiau hynny lle bo modd.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae lliwiau niwtral a thawel y lleoliad a'r lluniau sydd wedi'u harddangos o'r plant a'u teuluoedd yn creu ymdeimlad cysurus o gartref oddi cartref ym mhob ystafell. Mae'r prif ystafelloedd chwarae wedi'u trefnu'n dda i hyrwyddo pob maes sy'n gysylltiedig â datblygiad plant. Mae amrywiaeth bwrpasol o adnoddau, gan gynnwys eitemau bywyd go iawn ac eitemau amlddiwylliannol, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ddiwylliannol a'r byd o'u cwmpas. Mae arddangosfeydd ar y waliau yn cynnwys enghreifftiau o waith celf y plant sy'n dathlu eu cyflawniadau, gan roi ymdeimlad o falchder a pherthyn iddynt. Mae'r ardal awyr agored yn fawr iawn ac yn cynnwys amrywiaeth dda o gyfarpar sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Mae sawl ardal awyr agored wedi'i gorchuddio sy'n sicrhau y gall y plant fod allan ym mhob tywydd. Ceir twnnel polythen mawr sy'n cynnwys rhannau rhydd naturiol i'r plant eu harchwilio sy'n annog cyfleoedd dysgu dilys.  Dywedodd y bobl yn y lleoliad wrthym fod y plant yn tyfu eu blodau, eu perlysiau a'u llysiau eu hunain yn yr ardd.

Mae'r staff yn darparu dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau, cadeiriau, toiledau a sinciau maint plant a lle storio teganau lefel isel, sy'n addas i oedran y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae ystafell gysgu ar wahân i'r babanod, ond gwelsom fod pethau yn tynnu sylw'r plant iau ac yn eu hatal rhag mynd i gysgu mewn ardal o'r ystafell chwarae. Mae nifer addas o doiledau plant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael. Mae'r ardaloedd hyn yn lân ac yn ffres ac mae sebon hylif a thywelion papur o fewn cyrraedd i'r plant.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Rhagorol |
|---|---|

Mae gweledigaeth gadarn iawn ar gyfer y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag AGC ac yn awyddus i ysgogi gwelliannau pellach. Maent yn hysbysu AGC am unrhyw ddigwyddiadau o bwys yn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod y cofnodion rheoliadol yn drefnus a'u bod yn cael eu cadw'n gywir. Mae systemau adolygu ar waith ganddynt er mwyn gallu nodi unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg neu gamau gweithredu y gall fod angen eu cymryd yn effeithiol. Mae gan y ddarpariaeth bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae gan yr arweinwyr system gadarn ar waith i adolygu ansawdd y gwasanaeth a gynigir ganddynt. Mae'r holl bartïon perthnasol yn cyfrannu at broses hunanwerthuso hynod effeithiol ac yn creu diwylliant o wella'n barhaus. Maent yn ymateb i geisiadau gan y rhieni, y staff a'r plant ac yn ceisio dod o hyd i enghreifftiau o'r arferion gorau er mwyn sicrhau eu bod yn eu rhoi ar waith yn y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ohonynt eu hunain ac o'r staff. Mae'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) wedi cael ei gyflwyno i AGC yn briodol. Roedd y datganiad hwn yn cynnwys adroddiad cynhwysfawr o adolygiad o ansawdd y gofal yn y lleoliad, gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

Mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol ar waith i recriwtio a chyflogi staff yn ddiogel. Mae ffeiliau'r staff yn drefnus ac yn dangos bod y gwasanaeth yn cwblhau'r holl wiriadau gofynnol ac yn gofyn am yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y lleoliad. Mae'r arweinwyr a'r staff yn rhagweithiol wrth nodi unrhyw gyfleoedd hyfforddi sy'n ehangu eu gwybodaeth am ofal plant. Mae'r arweinwyr yn monitro datblygiad proffesiynol a chynnydd y staff drwy gynnal sesiynau goruchwylio un i un ac arfarniadau blynyddol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud eu gwaith i safon uchel.

Mae gan yr arweinwyr gydgysylltiadau ysbrydoledig â'r gymuned leol a'r gymuned ehangach. Gwelsom enghreifftiau o'r plant yn ymweld â siopau, cartref yr henoed, y ganolfan arddio a thirnodau lleol. Mae'r staff a'r plant yn codi arian i'r gymuned drwy gwblhau teithiau cerdded noddedig. Mae'r arweinwyr a'r staff yn sicrhau bod yr holl systemau ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn arloesol ac yn gwbl gynhwysol. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn cael adborth rheolaidd ar gynnydd eu plentyn a'u bod yn fodlon iawn ar y gofal a ddarperir i'w plant yn y feithrinfa. Mae amrywiaeth o systemau cyfathrebu buddiol ar waith rhwng y feithrinfa a'r rhieni, gan gynnwys adborth dyddiol rheolaidd ar lafar, galwadau ffôn a diweddariadau ar ddiwrnod eu plentyn, gan gynnwys ffotograffau a fideos, drwy ap y mae'r feithrinfa yn ei ddefnyddio.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Ystyried sut y gellir defnyddio'r ardal yn yr ystafell chwarae ar y llawr cyntaf i sicrhau y gall y plant orffwys heb fod unrhyw beth yn tarfu arnynt. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/05/2024